Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Pen-y-Garth**
**1 Heol Tircoch**
**Penarth**
**Bro Morgannwg**
**CF64 2QN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Pen-y-Garth yn ysgol benodedig Gymraeg sy’n gwasanaethu tref Penarth a nifer o bentrefi o’i hamgylch yn awdurdod Bro Morgannwg. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol yn yr ysgol ar ddechrau cyfnod allweddol 2.

Mae 413 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, a 63 o blant oed meithrin, rhan amser. Addysgir y disgyblion mewn 8 dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a 8 dosbarth yng nghyfnod allweddol 2, a chyflogir cywerth ag 18.6 athro gan gynnwys y pennaeth. Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig ac mae tua 2.8% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 10% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2004 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pen-y-Garth yn 2015-2016 yw £2,966. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yw £5,170 a'r lleiafswm yw £2,735. Mae Ysgol Pen-y-Garth yn safle 41 o'r 46 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn dangos cynnydd arbennig yn eu gallu i gynnal trafodaethau a mynegi barn yn y Gymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol
- y mwyafrif o ddisgyblion yn medru cymhwyso medrau rhif yn effeithiol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- gan bron pob un o'r disgyblion agwedd aeddfed tuag at eu gwaith ac maent yn elwa o fedru canolbwyntio am gyfnodau hir
- athrawon yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol
- athrawon yn trochi'r disgyblion mewn iaith gyfoethog o oedran cynnar iawn ac yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion o eirfa anghyfarwydd yn effeithiol
- staff cynorthwyol yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn llwyddo i gyfleu disgwyliadau uchel o'r staff ac yn dyrannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus gan wneud y defnydd gorau o'u harbenigeddau
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn ymgymryd yn eu dyletswyddau i wireddu'r nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yn llwyddiannus iawn
- y staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau cysondeb yn yr addysgu ar draws yr ysgol
- arweinwyr yn gwneud defnydd da o ddadansoddiad data i adnabod tueddiadau dros gyfnod
- yr ysgol yn cydweithio'n  dda ag ysgolion Cymraeg y consortiwm i greu adnoddau rhifedd ar gyfer disgyblion mwy abl
- yr ysgol yn cydweithio'n dda ag ysgolion cynradd Cymraeg y clwstwr ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at wella safonau a chyrhaeddiad disgyblion mewn medrau llythrennedd a rhesymu rhifedd

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd priodol ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen i ddisgyblion wneud dewisiadau a gweithredu'n annibynnol

A2 Darparu tasgau mathemateg sy'n herio'r disgyblion mwy abl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni'r gofynion

A4 Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr er mwyn iddynt fedru herio a dwyn yr ysgol i gyfrif

A5 Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu yn fwy arfarnol ac yn ddogfen weithredol ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda gallu sydd yn gyfystyr â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. O ystyried cefndir ieithyddol tua hanner y disgyblion, mae bron pob un yn datblygu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn ystod eu gweithgareddau ac wrth sgwrsio o gwmpas yr ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o eiriau cyfoethog i wella safon eu darnau ysgrifennu estynedig yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus ar ddechrau brawddegau ac yn creu cymariaethau diddorol ac effeithiol i wella ansawdd eu gwaith, er enghraifft 'tafod pinc fel darn o ham'. Mae llawer yn ddarllenwyr brwdfrydig ac yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn llwyddiannus i ddeall geiriau anghyfarwydd a rhoi ystyr i'r testun. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn dangos cynnydd arbennig yn eu gallu i gynnal trafodaethau a mynegi barn yn y Gymraeg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar bron bob un disgybl o safon dda iawn. Maent yn cynnal sgyrsiau aeddfed am ystod eang o destunau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac ymadroddion diddorol. Mae eu gallu i gynnal trafodaethau a chyflwyno safbwynt yn datblygu'n dda iawn. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda ac mae sesiynau darllen dyddiol yn llwyddo i ddatblygu uwch fedrau darllen y disgyblion yn effeithiol. Maent yn darllen yn hyderus ac yn rhugl yn y ddwy iaith, gan newid goslef eu llais i ychwanegu diddordeb.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o nifer eang o wahanol arddulliau ysgrifennu. Mae eu gwybodaeth o nodweddion a ffurfiau iaith yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiad papur newydd am fordaith y Mimosa ac yn ysgrifennu erthygl ddadleuol ar 'mae addysg Gymraeg yn hanfodol'. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o atalnodi yn datblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 2 ac maent yn gosod eu gwaith yn drefnus mewn paragraffau. Mae bron pob un yn medru ysgrifennu i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu darnau o waith ysgrifenedig estynedig i'r un safon yn eu gwersi Cymraeg a Saesneg ac mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu bywyd plentyn tlawd a chyfoethog yn ystod oes Fictoria.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, gall y rhan fwyaf ddefnyddio a chymhwyso rhifau hyd a 100, pwyso gan ddefnyddio gramau, mesur gan ddefnyddio centimetrau a defnyddio mesurau priodol wrth ymdrin â chynhwysedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu medrau'n ddigonol er mwyn cyrraedd y lefelau uwch. Mae llawer yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar gymharu tymheredd mewn gwledydd ar draws y byd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o nodweddion

mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu, yn dda iawn. Mae disgyblion mwy abl yn gallu defnyddio eu gwybodaeth i ddatrys problemau yn ymwneud â chymhareb, lluosi rhifau gyda degolion a lluosrifau ac adio a thynnu ffracsiynau cymysg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn medru cymhwyso medrau rhif yn effeithiol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn medru creu graff linell yn llwyddiannus i gofnodi data arbrofion mewn gwyddoniaeth ac i fesur pellter o Batagonia i wledydd y byd a chymharu poblogaeth Patagonia a Chymru o fewn eu gwaith daearyddiaeth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae tuedd o welliant wedi bod mewn perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Dros y dwy flynedd diwethaf, mae eu perfformiad ar y deilliant disgwyliedig, ac ar ddeilliant uwch na'r disgwyl, wedi bod yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn dangos tuedd o welliant ym mhob un o'r pynciau craidd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae eu perfformiad wedi bod yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn gyson uwchlaw'r canolrif dros gyfnod o amser.

Niferoedd bach o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, felly ni fyddai'n ddibynadwy gwneud cymhariaeth rhwng eu perfformiad a pherfformiad y disgyblion hynny sydd ddim yn gymwys i brydau ysgol am ddim.

Nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig nac ar y lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn bryderus. Mae safon eu hymddygiad ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Maent yn ymwybodol o fwyta a byw yn iach ac yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau corfforol.

Mae gan bron pob disgybl agwedd aeddfed tuag at eu gwaith ac maent yn elwa o fedru canolbwyntio am gyfnodau hir. Mae llawer o'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'u cryfderau a meysydd i wella. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynllunio gweithgareddau dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at dderbyn cyfrifoldebau ac mae rôl ffrindiau iard 'Mêts Grêt' yn datblygu'n dda. Mae'r cyngor yr ysgol gweithio'n effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi codi arian at brynu llyfrau o ddiddordeb i fechgyn ac offer chwarae ar gyfer iard yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fedrau cymdeithasol bywyd trwy gyfrannu at gynllunio gweithgareddau fel stondin gacennau a diwrnod gwisgo i fyny i godi arian tuag at elusennau. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, er enghraifft wrth ganu i'r henoed.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch a'r 25% uchaf dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio gweithgareddau symbylus yn effeithiol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw pob athro yn y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio'n ddigon bwriadus i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys gweithgareddau buddiol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a meddwl disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion. Mae amrywiaeth o themâu yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol ac mae'r athrawon yn rhoi sylw priodol i lais y disgybl yn y broses gynllunio. Mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth effeithiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau mathemategol y Cyfnod Sylfaen bob tro'n herio'r disgyblion mwy abl yn ddigonol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn gynhwysfawr ac yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, bu ymweliadau â Llancaiach Fawr, Sant Ffagan a Bae Caerdydd yn fodd i hybu adnabyddiaeth y disgyblion o'u hanes a'r ardal leol.

Trwy ystod eang o weithgareddau buddiol, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r ysgol yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol a diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fywyd mewn gwledydd ar draws y byd, er enghraifft Patagonia a Botswana. Mae'r cyngor eco yn cydweithio'n effeithiol gyda disgyblion ar draws yr ysgol i'w hannog i ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill.

Mae gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau i fannau diddorol, gweithdai a chyflwyniadau gan ymwelwyr, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion, er enghraifft gweithdai gyda chwmni theatr mewn addysg. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn datblygu medrau cymdeithasol, corfforol a lles y disgyblion yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag ambell elfen o ragoriaeth. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac maent yn cwestiynu'n dreiddgar er mwyn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae'r athrawon yn trochi'r disgyblion mewn iaith gyfoethog o oedran cynnar iawn ac yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion o eirfa anghyfarwydd yn effeithiol. Yn y gwersi lle gwelir agweddau o ragoriaeth, mae'r tasgau'n heriol, wedi eu teilwra i anghenion grwpiau unigol a'r disgwyliadau yn gyson uchel. Mae'r athrawon hyn hefyd yn sicrhau cyflwyniadau a diweddglo diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff cynorthwyol yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ac mae perthynas waith lwyddiannus yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth.

Defnyddia'r athrawon ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn naturiol ac mae hyn yn hybu dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau'r athrawon yn cynnig targedau addas sydd yn egluro'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn datblygu ymhellach. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i ymateb i'r sylwadau a diwygio eu gwaith er mwyn gwella ei ansawdd. Mae'r adborth adeiladol sy'n cael ei gynnig ar lafar yn arwain at gynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o brofion safonol ac asesiadau athrawon er mwyn olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddarparu tasgau addas sydd yn cael effaith ar ddeilliannau. Mae'r broses o gyd-safoni gwaith y disgyblion gydag ysgolion y clwstwr, o'r meithrin hyd at flwyddyn chwech, yn cael effaith sylweddol ar ddealltwriaeth yr athrawon o ofynion lefelau.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae wedi ei threfnu'n effeithiol, ac mae'r staff yn cyfrannu'n dda at ddatblygu lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig cymorth a chefnogaeth lwyddiannus i'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae eu hymwybyddiaeth o at bwy y gallant droi am arweiniad yn dda iawn. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn galluogi disgyblion i gadw'n heini. Mae ystod eang o weithgareddau ymarfer corff yn cael eu cynnig o fewn y gwersi, a thrwy weithgareddau allgyrsiol, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iechyd a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwasanaethau, a'r cyfleoedd i fyfyrio ac addoli ar y cyd, yn cefnogi eu datblygiad moesol ac ysbrydol yn llwyddiannus.

Mae gweithgareddau diwylliannol fel cyngherddau, eisteddfod yr Urdd ac ymwelwyr amrywiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol fel lleferydd iaith a gwasanaeth clyw, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad carfan benodol o ddisgyblion.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac mae cynlluniau addysg unigol cyfredol ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer y disgyblion hyn, ac nid yw'r gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson. Er gwaethaf hyn, mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Pen-y-Garth yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig cyfle cyfartal i ddisgyblion ac yn eu hannog i feithrin parch a gofal at ei gilydd. Rhoddir pwyslais amlwg ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion ac yn llwyddo i ddefnyddio bron pob rhan o'r adeilad i'w llawn botensial. Mae'r arddangosfeydd sydd yn y dosbarthiadau, ac ar hyd y coridorau, yn ddeniadol, yn cefnogi'r dysgu, ac yn dathlu diwylliant Cymreig yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r neuadd aml-bwrpas sydd ar safle'r ysgol ar gyfer cynnal gweithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon. Caiff y neuadd hon ei defnyddio'n briodol gan y gymuned i gynnal nifer o glybiau wythnosol. Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau ac offer er mwyn diwallu holl elfennau'r cwricwlwm.

Mae ardaloedd awyr agored yr ysgol yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r adeilad mewn cyflwr da, ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon ddiogel a chadarn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau parch, safonau uchel, a balchder at Gymreictod. Maent yn rhannu'r weledigaeth gyda'r staff, disgyblion, a llywodraethwyr yn effeithiol. O ganlyniad, mae eu hymroddiad i sicrhau gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae arweinwyr yn llwyddo i gyfleu disgwyliadau uchel o'r staff ac yn dyrannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus gan wneud y defnydd gorau o'u harbenigeddau.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheolaeth buddiol sy’n rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae aelodau’r uwch dîm rheoli yn ymgymryd â’u dyletswyddau i wireddu’r nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau’n glir. Mae'r ysgol yn cyd-gysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff â thargedau rheoli perfformiad yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae athrawon yn derbyn cefnogaeth effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau mewn dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau gwella, y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae’r staff yn ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae’r defnydd o’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn datblygu’n effeithiol ac yn cael effaith arwyddocaol ar fedrau a deilliannau’r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau’n briodol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac maent yn dechrau ymgymryd â gweithgareddau monitro. Er enghraifft, maent yn ymweld â’r ysgol yn achlysurol i arsylwi gwersi ac i gwrdd â’r staff. Fodd bynnag, nid oes ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, nid ydynt yn medru herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cyson.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr yr ysgol wedi datblygu ystod o weithgareddau hunanarfarnu addas. Mae’r rhain yn cynnwys trefniadau priodol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau’r ysgol. Maent yn gwneud defnydd da o ddadansoddi data i adnabod tueddiadau dros gyfnod. Ar y cyfan, mae adroddiadau monitro yn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella yn effeithiol.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys llawer o wybodaeth a manylion sy’n nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol. Yn gyffredinol, mae deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu yn cael eu defnyddio’n addas i osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiad yn ddigon arfarnol nac yn cynnwys tystiolaeth gan yr holl randdeiliaid yn ddigon effeithiol.

Mae’r cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethau gwella’r ysgol, ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen weithredu a dangosyddion llwyddiant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol nac yn ddigon meintiol mewn mannau. Nid yw’r cynllun gwella ysgol yn ffocysu digon ar fesur llwyddiant yn erbyn blaenoriaethau blaenorol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar allu’r arweinwyr i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy’n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cael effaith arwyddocaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae perthynas briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cartref sy’n helpu’r rhieni i gefnogi addysg eu plant. Mae’r defnydd o ddulliau electroneg, y system neges testun a chylchlythyr ‘Pigion Pen-y-Garth’ yn cyfrannu’n effeithiol at wella’r cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref. Mae’r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi’r ysgol yn dda trwy godi arian at brynu adnoddau defnyddiol, er enghraifft drwy gyfrannu at ddatblygu’r ardaloedd allanol a phrynu offer TGCh sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. Ar y cyfan, caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a thargedau eu plant yn rheolaidd.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gydag asiantaethau arbenigol allanol er mwyn arfogi’r staff i ddarparu ystod o raglenni gwerthfawr. O ganlyniad, mae’r garfan hon o ddisgyblion yn derbyn cefnogaeth lwyddiannus. Mae gan yr ysgol berthynas werthfawr gyda mudiadau cyn-ysgol lleol er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n fuan yn y dosbarth meithrin. Mae'r trefniadau pontio gyda’r ysgol uwchradd yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn galluogi staff i gydweithio’n effeithiol i safoni gwaith disgyblion ac i baratoi adnoddau dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae’r ysgol yn cydweithio ag ysgolion Cymraeg o fewn y consortiwm o awdurdodau lleol i greu adnoddau rhifedd ar gyfer disgyblion mwy abl.

Mae partneriaeth briodol rhwng yr ysgol a’r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn perfformio mewn cyngherddau i wahanol gynulleidfaoedd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i ymdrin â phob agwedd o’r cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddia’r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i gyd-gynllunio ac i godi safonau.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol iawn o fewn rhwydweithiau dysgu, sy’n cyfrannu’n dda at gyfoethogi darpariaeth a gwella deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae’r arweinydd Cymraeg wedi cyfrannu’n arbennig i rwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau darllen disgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu’n sylweddol at wella safonau a chyrhaeddiad disgyblion mewn medrau llythrennedd a rhesymu rhifedd.

Mae'r prosesau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn arwain at bennu targedau priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a’u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, er enghraifft drwy wella addysgeg ar draws yr ysgol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr, ynghyd â’r swyddog gweinyddol a swyddog cyllid y sir, yn monitro a rheoli’r gyllideb yn ofalus.  Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ar gyfer gwella lles a medrau llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6732152 - YSGOL PEN-Y-GARTH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 406 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 2.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 46 | 50 | 50 | 56 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.4 | 90.0 | 100.0 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 50 | 50 | 56 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.8 | 92.0 | 100.0 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.4 | 30.0 | 48.0 | 46.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 50 | 50 | 56 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.5 | 96.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.4 | 24.0 | 46.0 | 48.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 50 | 50 | 56 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.8 | 96.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.9 | 46.0 | 76.0 | 73.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6732152 - YSGOL PEN-Y-GARTH**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 406 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 2.6 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 30 | 26 | 42 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 96.7 | 92.3 | 95.2 | 97.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 26 | 42 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.7 | 96.2 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 56.7 | 46.2 | 61.9 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 26 | 42 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.7 | 96.2 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 46.2 | 59.5 | 57.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 26 | 42 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.7 | 92.3 | 95.2 | 97.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 57.7 | 64.3 | 67.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 26 | 42 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.7 | 96.2 | 97.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 46.7 | 69.2 | 64.3 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 100<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 95<br>97%<br>92% | 3<br>3%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 90<br>90%<br>97% | 10<br>10%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 99<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 100 | 90<br>90%<br>96% | 10<br>10%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 94<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 100<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 100 | 95<br>95%<br>98% | 5<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 100 | 62<br>62%<br>91% | 38<br>38%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 100 | 82<br>82%<br>95% | 18<br>18%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 100 | 78<br>78%<br>77% | 22<br>22%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 82<br>83%<br>84% | 17<br>17%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 118 | 42 | 67 | 7 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 36% | 57% | 6% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 117 | 69 | 43 | 4 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 59% | 37% | 3% | 1% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 115 | 63 | 42 | 7 | 3 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 55% | 37% | 6% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 116 | 49 | 55 | 8 | 4 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 42% | 47% | 7% | 3% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 111 | 54 | 55 | 2 | 0 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 49% | 50% | 2% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 111 | 35 | 65 | 9 | 2 | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 32% | 59% | 8% | 2% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 115 | 52 | 56 | 5 | 2 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 45% | 49% | 4% | 2% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 98 | 28 | 46 | 19 | 5 | 18 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 29% | 47% | 19% | 5% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 105 | 40 | 44 | 15 | 6 | 12 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 38% | 42% | 14% | 6% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 113 | 51 | 58 | 4 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 51% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 116 | 62 | 52 | 1 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 45% | 1% | 1% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 97 | 42 | 41 | 10 | 4 | 18 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 42% | 10% | 4% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 116 | 27 | 65 | 23 | 1 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 23% | 56% | 20% | 1% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 117 | 43<br>37% | 48<br>41% | 18<br>15% | 8<br>7% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 96 | 24<br>25% | 41<br>43% | 23<br>24% | 8<br>8% | 22 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 109 | 41<br>38% | 60<br>55% | 7<br>6% | 1<br>1% | 8 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 78 | 33<br>42% | 37<br>47% | 8<br>10% | 0<br>0% | 38 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 115 | 36<br>31% | 62<br>54% | 17<br>15% | 0<br>0% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 108 | 30<br>28% | 51<br>47% | 21<br>19% | 6<br>6% | 9 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Gillian B Evans | Arolygydd Tîm |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Catherine Lloyd-Jenkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iona Edwards | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.